Archaeoleg ar eich stepen drws

# Creu bwyelli ar ddiwedd Oes y Cerrig

Dechreuodd pobl greu bwyelli carreg wedi'u gloywi tua 4000 CC a'u defnyddio i dorri coed, creu argraff ar gymdogion, neu ymosod ar elynion. Ond nid yw pob carreg yn creu bwyelli da - mae'n rhaid i chi ddod o hyd i'r rhai cywir.

Dewch o hyd i ragor o ganllawiau archaeoleg neu cysylltwch ag archaeolegwyr yr Amgueddfa i gael cymorth gydag adnabod: amgueddfa.cymru/casgliadau/ar-eich-stepen-drws neu ar Twitter @SF_Archaeology

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

amgueddfa cymru national museum wales

003



## Bwyell garreg wedi'i gloywi

I greu bwyell garreg rydych chi'n dechrau drwy ddod o hyd i floc o garreg galed fydd yn cynnal ymyl.

Yna caiff siâp bwyell fras ei greu, naill ai drwy fwrw naddion oddi ar y bloc, neu drwy ei daro dro ar ôl tro gyda charreg morthwyl.

Caiff llafn y fwyell ei miniogi o'i falu gyda thywod a dŵr. Weithiau bydd y fwyell gyfan yn cael ei gloywi fel yr un yma.



## Graig Lwyd

*SH719753*

Ar lethrau'r mynydd hwn ceir llinell o garreg folcanig, sy'n berffaith ar gyfer creu bwyelli.

Cafodd miloedd o fwyelli eu creu yma dros gyfnod o tua 2,000 o flynyddoedd, o 4000 CC.

Cafodd nifer o fwyelli eu rhoi i gymunedau eraill ac mae enghreifftiau wedi cael eu canfod ar draws Lloegr a Chymru.

Heddiw mae Graig Lwyd wedi ei warchod yn gyfreithiol, fel y rhan fwyaf o safleoedd cynhyrchu bwyelli.



## Mynydd Rhiw

*SH231295*

Mae haen o dwff folcanig yn rhedeg drwy'r bryn hwn. Tua 3750 CC dechreuodd pobl ei ddefnyddio i greu eu bwyelli.

Cafodd y rhan fwyaf o'r garreg ei gasglu drwy balu blociau llac o'r pridd. Dim ond yn achlysurol y byddai pobl yn trafferthu i dorri darnau o'r haen ei hun.

Cafodd cannoedd o fwyelli o'r garreg hon eu creu, ond nid oedden nhw'n cael eu masnachu'n llawer pellach na'r ardal leol.



## Great Langdale

*NY304065*

Dyma gawr y safleoedd cynhyrchu bwyelli Oes y Cerrig.

Yn uchel i fyny yn Ardal Llynnoedd Lloegr, hwn oedd ffynhonnell miloedd o fwyelli carreg a gafodd eu cyfnewid gyda chymunedau ledled Prydain.

Daeth nifer i Gymru, gydag un enghraifft yn cael ei gladdu mewn twll yn Llandegai.

Ymddengys fod y deunydd hwn yn werthfawr iawn i arbenigwyr bwyelli Oes y Cerrig.



## Bwyelli fflint

Fflint yw'r deunydd nodweddiadol wrth greu offer carreg. Mae'n hawdd i'w droi'n naddion, mae'n creu ymyl miniog ac yn edrych yn brydferth pan gaiff ei loywi.

Rydym yn dod o hyd i lawer o fwyelli fflint yng Nghymru, yn enwedig yn y de ddwyrain. Ond nid oes cerrig brig fflint naturiol yma.

Mae'n rhaid bod y rhan fwyaf o'r bwyelli fflint hyn wedi cael eu gwneud o fflint a ganfuwyd yn nhiroedd sialc de a dwyrain Lloegr.